# CANLLAW 046 TECHNOLEG IECHYD CYMRU (HTW)
# (Mawrth 2023)

## Rhaglenni dwys i gadw teuluoedd mewn argyfwng gyda'i gilydd

**Canllaw HTW:**

Mae'r dystiolaeth yn cefnogi mabwysiadu rhaglenni dwys i gadw teuluoedd mewn argyfwng gyda'i gilydd.

Mae'r defnydd o raglenni dwys i gadw teuluoedd gyda'i gilydd yn lleihau'r risg o blant yn cael eu lleoli y tu allan i'r cartref. Mae safbwyntiau rhieni a phlant yn cefnogi'r farn bod rhaglenni dwys i gadw teuluoedd gyda'i gilydd yn fuddiol ac yn gallu mynd i'r afael ag argyfyngau a allai beri risg y bydd angen i blentyn fynd i ofal. Er bod y dystiolaeth yn gadael rhywfaint o ansicrwydd ynghylch effaith hyn ar les emosiynol ac ymddygiadol plant, mae'n ymddangos nad oes unrhyw dystiolaeth o niwed.

Mae'r dadansoddiad economaidd yn gysylltiedig ag ansicrwydd ond mae'n nodi'r potensial ar gyfer arbedion cost o hyd at £12,171 y plentyn drwy ddefnyddio rhaglenni dwys i gadw teuluoedd gyda'i gilydd oherwydd bod lleoliadau y tu allan i'r cartref yn cael eu hosgoi.

## Pam wnaeth Technoleg Iechyd Cymru (HTW) arfarnu'r pwnc hwn?

Mae gan blant a phobl ifanc yng Nghymru hawl gyfreithiol i fod yn ddiogel, i chwarae, i gael addysg ac i fod yn iach ac yn hapus. I'r rhan fwyaf o blant, mae'r amgylchedd teuluol yn fan lle gallant ffynnu. Fodd bynnag, mae rhai plant mewn perygl o ddioddef niwed o fewn eu teuluoedd oherwydd camdriniaeth. Pan fo pryderon am les plentyn, efallai y bydd angen i'r gwasanaethau plant ymyrryd, ac er mai eu nod fydd cadw plant yn amgylchedd y teulu, efallai y bydd angen eu tynnu o'r amgylchedd hwn ar gyfer eu diogelwch. Gall ymyriadau wedi'u targedu helpu i ddatrys argyfyngau a chaniatáu i blant aros yn amgylchedd eu teulu yn hytrach na mynd i ofal.

Ymyriadau dwys, tymor byr a ddefnyddir mewn cyfnod o argyfwng pan fo risg bod plentyn ar fin mynd i ofal yw rhaglenni dwys i gadw teuluoedd gyda'i gilydd (IFPP). Eu nod yw datrys argyfyngau drwy ddarparu cymorth uniongyrchol i deuluoedd drwy wella sgiliau a gwydnwch a chymorth anuniongyrchol drwy gysylltu teuluoedd â gwasanaethau ychwanegol.

Cynigiwyd y pwnc hwn gan Jonathan Scourfield, Athro Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd; hefyd wedi'i leoli yng Nghanolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant.

## Crynodeb o'r Dystiolaeth

Cyfeiriwch at Adroddiad Arfarnu Tystiolaeth 046 (EAR046) i weld adroddiad llawn o'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r Canllaw hwn.

Nod EAR046 oedd nodi a chrynhoi tystiolaeth sy'n mynd i'r afael â'r cwestiwn canlynol: beth yw effeithiolrwydd a chost-effeithiolrwydd IFPP i deuluoedd mewn argyfwng pan fo risg bod plant ar fin mynd i ofal?

Teimlwyd mai adolygiad systematig a meta-ddadansoddiad diweddar a oedd yn adrodd ar gyfraddau lleoli y tu allan i'r cartref oedd y dystiolaeth uchaf ei blaenoriaeth. Gwnaethom hefyd gynnwys pum astudiaeth gynradd a gynhaliwyd yn y DU a roddodd ganlyniadau ychwanegol am leoli y tu allan i'r cartref neu ganlyniadau eraill yn ymwneud â phlant, rhieni neu weithrediad teuluol.

Mae canfyddiadau o'r astudiaethau hyn yn awgrymu bod IFPP yn gysylltiedig â gostyngiadau mewn lleoliadau y tu allan i'r cartref a gallant gadw plant o fewn yr uned deuluol. Pan oeddent ar gael, nid oedd hi'n ymddangos bod canlyniadau'n ymwneud â lles plant a gweithrediad teuluol yn gwella o dderbyn IFPP, ond roedd y canlyniadau'n tueddu i wyro tuag at fudd ac nid oedd unrhyw awgrym bod IFPP a ddarperir yn yr uned deuluol yn niweidiol i blant. Cymysg oedd y canlyniadau a oedd yn ymwneud â rhieni ar draws astudiaethau, ond awgrymodd rhai fod IFPP yn gysylltiedig â gostyngiad mewn trallod a chamddefnydd sylweddau. Dylid nodi, fodd bynnag, bod y rhan fwyaf o'r dystiolaeth sydd ar gael yn dod o astudiaethau nad ydynt wedi'u cynnal ar hap gyda risg amrywiol o duedd sy'n ychwanegu ansicrwydd.

Datblygodd HTW ddadansoddiad cost-canlyniad i werthuso'r costau a'r canlyniadau sy'n gysylltiedig ag IFPP o gymharu â pheidio â defnyddio'r ymyriad, o safbwynt Cymru. Canfuwyd bod IFPP yn gysylltiedig â llai o blant mewn gofal y tu allan i'r cartref ar ddiwedd y gorwel amser dwy flynedd a fodelwyd. Trosodd hyn yn ostyngiad mewn costau, oherwydd bod llai o blant yn cronni costau gofal uchel. Canfuwyd bod canlyniadau'r dadansoddiad yn gadarn i newidiadau mewn dadansoddiad sensitifrwydd.

Ar gyngor Grŵp Sefydlog Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd HTW, cafodd safbwyntiau plant a rhieni ynghylch IFPP ac ymwneud ehangach â gwasanaethau cymdeithasol plant eu casglu hefyd drwy chwiliadau llenyddiaeth.

## Ystyriaethau'r Panel Arfarnu

- Amlygodd arbenigwyr fod IFPP yn ymyriad dargyfeiriol dwys, sy'n gyson â Deddf Plant a Theuluoedd 2014, sydd â'r ethos o gadw plant o fewn eu hunedau teuluol.
- Clywodd y Panel Arfarnu fod y sefyllfa gofal cymdeithasol bresennol yng Nghymru dan straen, gyda phrinder gofalwyr maeth ac anawsterau wrth leoli plant mewn lleoliadau y tu allan i'r cartref. Cydnabyddir bod y sefyllfa hon yn cael effaith negyddol ar les plant ac ystyrir bod osgoi gofal, lle bo modd, yn hollbwysig.
- Clywodd y Panel Arfarnu gan arbenigwr fod IFPP yn gweithio drwy feithrin perthnasoedd. Trwy dreulio amser gyda theulu, mae ymarferwyr IFPP yn gallu meithrin perthynas effeithiol, sy'n lleihau rhwystrau ac yn eu galluogi i nodi risgiau posibl. Yn bwysig, mae'r broses hefyd yn annog teuluoedd i ganolbwyntio ar eu cryfderau a nodi eu meysydd pryder eu hunain.
- Ystyriodd y Panel Arfarnu y dystiolaeth a ganfuwyd gan HTW a nododd y potensial ar gyfer gostyngiad mewn lleoliadau y tu allan i'r cartref gyda'r defnydd o IFPP. Tynnodd cyfranwyr Gofal Cymdeithasol Cymru sylw at fanteision posibl osgoi lleoliadau y tu allan i'r cartref gan

fod ymchwil yn awgrymu bod plant sy'n derbyn gofal yn tueddu i gael canlyniadau iechyd meddwl, addysgol a chyflogaeth gwaeth. Amlygodd arbenigwyr fod lleoli plant mewn gofal yn aml yn gysylltiedig â niwed gan y gall fod yn heriol yn feddyliol i blant a gall ddylanwadu ar eu hymdeimlad o hunaniaeth. Felly, dylid annog aros yn y cartref pryd bynnag y bo modd.

- Ystyriodd y Panel Arfarnu berthnasedd y dystiolaeth i Gymru gan fod y rhan fwyaf o'r astudiaethau yn y meta-ddadansoddiad yn dod o leoliadau y tu allan i'r DU. Mae defnyddio IFPP wedi bod yn wasanaeth a argymhellir ers peth amser yng Nghymru, ond gyda llawer o amrywiaeth o ran defnydd a ffyddlondeb isel i'r rhaglen. Clywodd y panel gan Gofal Cymdeithasol Cymru y bydd gan weithwyr cymdeithasol lawer o deuluoedd ar eu llwyth achosion ar un tro ac felly ni fyddai ganddynt amser i ddarparu'r gwasanaeth hwn eu hunain. Felly mae defnyddio IFPP yn gofyn am weithwyr cymdeithasol sydd â hyfforddiant arbenigol yn yr ymyriad, a llwyth achosion bach fel y gallant weithio'n ddwys gyda theuluoedd i'w galluogi i feithrin perthynas.

- Tynnodd arbenigwyr sylw at y ffaith y gallai'r dystiolaeth a gynhwyswyd yn y meta-ddadansoddiad fod yn hen gan y gallai ymarfer fod wedi newid ers eu cyhoeddi. Yn benodol, mae pandemig Covid-19 wedi effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau ac wedi rhoi straen ychwanegol ar ymarfer gofal cymdeithasol. Trafododd y panel, er y byddai tystiolaeth bellach wedi'i diweddaru yn ddelfrydol, y gall fod yn anodd cynnal astudiaethau o ansawdd uchel ym maes gofal cymdeithasol oherwydd buddsoddiad is mewn ymchwil gofal cymdeithasol nag mewn ymchwil gofal iechyd. Yn gyffredinol, daeth y panel i'r casgliad, er bod cyfyngiadau yn y sylfaen dystiolaeth, ei fod yn dangos effaith bosibl yr ymyriad hwn.

- Ystyriodd y Panel Arfarnu ganlyniadau'r dadansoddiad economaidd a ddatblygwyd gan HTW. Nodwyd, er bod ansicrwydd yn y modelu, bod y canlyniadau'n dangos y potensial ar gyfer arbedion cost o hyd at £12,171 y plentyn drwy ddefnyddio IFPP. Hysbyswyd y panel mai prif ysgogydd y canlyniad hwn oedd yr arbedion cost sy'n gysylltiedig ag osgoi lleoliadau y tu allan i'r cartref.

- Amlygodd arbenigwyr fod y persbectif a ystyriwyd yn y dadansoddiad economaidd yn golygu nad oedd yr holl gostau wedi'u nodi. Awgrymodd arbenigwyr y gallai fod arbedion cost ychwanegol gydag IFPP, megis osgoi ceisiadau ac achosion llys. Nododd arbenigwyr hefyd na fydd y gorwel amser dwy flynedd a ystyriwyd yn y model economaidd yn sicrhau arbedion cost hirdymor posibl sy'n gysylltiedig â'r ymyriad.

- Bu'r Panel Arfarnu yn trafod y ffaith mai cyfyngedig yw'r opsiynau sydd ar gael i blant ar adeg o argyfwng, a bod gan yr ymyriad presennol botensial clir ar gyfer buddion oherwydd lleihad mewn lleoliadau y tu allan i'r cartref. Dylai hyn drosi nid yn unig yn fuddion economaidd ond hefyd yn welliannau mewn canlyniadau hirdymor i blant. Daeth y Panel Arfarnu i'r casgliad, er bod rhai cyfyngiadau yn y sylfaen dystiolaeth, fod y manteision posibl yn gymhellol ac y dylid cefnogi mabwysiadu IFPP.

**Ystyriaethau'r Panel Arfarnu:** Mawrth 2023

**Cyhoeddi canllaw:** Mawrth 2024

## Cyfrifoldebau am ystyried y Canllaw hwn

Sefydlwyd Technoleg Iechyd Cymru (HTW) drwy argymhelliad Gweinidogol[1,2] i gefnogi dull strategol a chenedlaethol ar gyfer nodi, arfarnu a mabwysiadu technolegau iechyd nad ydynt yn feddyginiaethau mewn lleoliadau iechyd a gofal. Mae cylch gwaith HTW hefyd yn cynnwys gofal cymdeithasol. Corff gwneud penderfyniadau HTW yw'r Panel Arfarnu, sy'n cynhyrchu canllawiau seiliedig ar dystiolaeth ar dechnolegau iechyd a gofal cymdeithasol a modelau gofal a chymorth. Cyhoeddir aelodaeth bresennol y Panel Arfarnu, ynghyd â chylch gorchwyl, ar wefan HTW. Er bod y Panel Arfarnu yn ceisio barn sefydliadau sy'n cynrychioli gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, cleifion, defnyddwyr gofal cymdeithasol, gofalwyr anffurfiol, diwydiant, a'r llywodraeth, mae ei ganllawiau'n annibynnol. Cyhoeddir pynciau gofal cymdeithasol gyda statws "Canllaw a argymhellir i'w Ystyried". Bydd HTW yn gwerthuso effaith ei ganllawiau.

Bwriad y canllaw yn y ddogfen hon yw cynorthwyo gwneuthurwyr penderfyniadau i wneud penderfyniadau wedi'u llywio gan dystiolaeth wrth benderfynu ar le technolegau a modelau gofal a chymorth iechyd a gofal cymdeithasol a thrwy hynny wella ansawdd gwasanaethau gofal yng Nghymru.

Seiliwyd cynnwys y canllaw HTW hwn ar y dystiolaeth a'r ffactorau a oedd ar gael ar adeg y gwnaeth y Panel Arfarnu ei ystyried. Adolygwyd sylfaen dystiolaeth ryngwladol ac ymgynghorwyd ag arbenigwyr pwnc allanol ac aelodau pwyllgor HTW i roi'r dystiolaeth sydd ar gael i Gymru mewn cyd-destun. Gofynnir i ddarllenwyr ystyried cyffredinolrwydd y dystiolaeth a adolygwyd ac y gallai treialon a thechnolegau newydd fod wedi dod i'r amlwg ers ei chyhoeddi gyntaf ac efallai nad yw'r dystiolaeth a gyflwynir yn gyfredol mwyach. Cydnabyddir mai dim ond un o'r ffynonellau sydd eu hangen ar gyfer gwneud penderfyniadau a chynllunio yw tystiolaeth. Disgrifir trosolwg o broses a dulliau HTW yn ein Harweiniad i'r Broses Arfarnu.

Nid yw'r canllaw hwn yn diystyru cyfrifoldeb unigol gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i wneud penderfyniadau wrth arfer eu barn broffesiynol sy'n ystyried amgylchiadau'r unigolyn, mewn ymgynghoriad â'r unigolyn a/neu warcheidwad neu ofalwr.

Ni cheir defnyddio unrhyw ran o'r canllaw hwn heb i'r holl ganllaw gael ei ddyfynnu'n llawn. Mae'r canllaw yn cynrychioli barn HTW ar y dyddiad a nodir. Nid yw canllawiau HTW yn cael eu diweddaru fel mater o drefn. Fodd bynnag, efallai y caiff ei ystyried ar gyfer adolygiad os bydd rhanddeiliaid yn gofyn am hynny, ar sail bod tystiolaeth gyhoeddedig newydd ar gael sy'n debygol o newid yn sylweddol y canllaw a roddir.

Diolchiadau. Hoffai HTW ddiolch i'r unigolion a'r sefydliadau a roddodd sylwadau ar yr Adroddiad Arfarnu Tystiolaeth drafft neu ganllaw HTW.

Gofynnwyd am ddatganiadau o fuddiant gan yr holl adolygwyr. Cafodd holl gyfraniadau'r adolygwyr eu hystyried gan Grŵp Asesu HTW. Fodd bynnag, nid oedd gan adolygwyr unrhyw rôl o ran awduraeth na rheolaeth olygyddol a safbwyntiau Technoleg Iechyd Cymru yw'r rheini a fynegir.

Cadeirydd, Panel Arfarnu Technoleg Iechyd Cymru

1. Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru. Rhagfyr 2014.
2. Ymateb i Argymhellion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymchwiliad i Fynediad at Dechnolegau Meddygol yng Nghymru. Chwefror 2015.

(cc) BY-NC-SA Mae'r gwaith hwn wedi'i drwyddedu o dan Drwydded Ryngwladol Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 4.0.